Ga i'r enw

Georgina

Man geni

Garej Ford, Hwlffordd

Dywedwch ychydig amdanoch chi eich hunan

Rwy'n flwydd oed ac rwy'n gar dibynadwy iawn. Rwyf wedi teithio mil o filltiroedd hyd yn hyn ac heb gael un damwain. Eto! Mae gen i bedair olwyn ac un olwyn sbar. Mae 5 drws gyda fi, a phum gwregys diogelwch.

Beth yw eich hobiau?

Rwy'n hoffi teithio'n araf ond os oes angen rwy'n gallu gyrru mor gyflym a'r gwynt. Rwy hefyd yn hoffi cadw'n lan drwy gael sglein a chawod bob mis. Yn anffodus, mae'n gas gyda fi oleuadau traffig achos fy mod yn gwastraffu egni wrth aros iddyn nhw newid.

Pam hoffech chi fod yn gar i mi?

Ar hyn o bryd rwy'n byw mewn stryd brysur iawn yn y dref a hoffwn i fyw mewn garej gynnes yn y wlad.

Iawn diolch bydda i mewn cysylltiad cyn bo hir.

Iawn, diolch yn fawr. Hwyl fawr.

Ga i'r enw

Wini

Man geni

Dwi ddim yn gwybod

Dywedwch ychydig amdanoch chi eich hunan.

Wel, does dim llawer i'w ddweud rili. Rwy'n wyrdd, rwy'n casau teithio'n bell. O ie, mae fy radio'n gweithio hefyd – weithiau. Ymmmm ymmmmm ymmmmm

Beth yw eich hobiau?

Oo dwi ddim yn gwbod – dewch i fi gael gweld..... Rwy'n hoffi peswch ac rwy'n hoffi canu'r horn yn uchel nawr ac yn y man os oes car diflas o'm blaen.

Pam hoffech chi fod yn gar i mi.

Wel, mae eisiau dwy olwyn newydd arna i. Dyw'r drws ffrynt ddim yn gallu agor a dwi ddim yn gallu gweld yn y nos achos does dim bylbiau yn y golau blaen. Gallech chi brynu rhai newydd i fi. Dyna beth ddywedodd Jac – y bos!

Bydda i mewn cysylltiad gyda chi cyn bo hir!

O gret – ond shapwch lan achos mae pobol eraill wedi dangos diddordeb!